JONES, DAVID (1793 - 1825), gweinidog yng nghyfundeb yr iarlles Huntingdon, ieithydd medrus, ac un o awduron Principia Hebraica, 1817

Enw: David Jones
Dyddiad geni: 1793
Dyddiad marw: 1825
Rhiant: Thomas Jones
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog yng nghyfundeb yr iarlles Huntingdon, ieithydd medrus, ac un o awduron Principia Hebraica, 1817
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd
Awdur: Rhiannon Francis Roberts

Ganwyd yng Nghwm Creigiau Fach, Sir Gaerfyrddin, 11 Chwefror 1793, yn fab i'r Parch. Thomas Jones, Caerfyrddin. Cafodd addysg dda, yn breifat i ddechrau, ac yna yn ysgol David Peter yng Nghaerfyrddin, yn y Coleg Presbyteraidd yn yr un dref, ac yng Ngholeg Cheshunt, Swydd Hertford. Astudiodd Arabeg, Syrieg, a Pherseg yn ogystal â Hebraeg a'r ieithoedd clasurol. Ordeiniwyd ef yn 1814, ac yn 1821, ar ôl bod yn Henffordd am gyfnod, aeth yn weinidog i Abertawe fel olynydd i'r Parch. W. Kemp. Torrodd ei iechyd i lawr, a gorfu iddo dreulio gaeaf 1823-4 yn neheudir Ffrainc; ar ei ffordd adref ymwelodd â Llydaw. Dychwelodd i Lydaw ddiwedd 1824 ar anogaeth y Feibl Gymdeithas, dechreuodd ddysgu Llydaweg ei hunan, a gwnaeth lawer i gael cyfieithiad o'r *Testament Newydd* i'r iaith honno. Bu farw yn Cheshunt 1 Medi 1825, ychydig wythnosau ar ôl cael ei benodi'n athro clasuron yno.

Awdur

Rhiannon Francis Roberts, (1923 - 1990)

Ffynonellau

The Evangelical Register, or magazine for the Connexion of the late Countess of Huntingdon (Llundain 1825-43), 1825, 150, 242; 1826, 65

Lleuad yr Oes sef, amgueddfa fisol o wybodaeth mewn crefydd, moes, athroniaeth a hanes (Abertawe 1827-1830), Mai 1827

The Gentleman's Magazine, 1825, ii, 285

Seren Gomer, 1824, 438; 1825, 93

The life and times of Selina, countess of Huntingdon (Llundain 1839), 1844, ii, 116, 530

Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru (1870), 572-3

Bye-Gones, relating to Wales and the Border Counties, 1882-3, 164

Y Brython (Tremadog) (ail arg.), 411

E. Pan Jones, *Oriel Coleg Presbyteraidd, Caerfyrddin: yn cynwys hanes yr holl fyfyrwyr fu yn y coleg o 1796 hyd 1899* (Merthyr Tydfil 1909), 29

nodiadau gan Dr. T. Witton Davies yn Ll.G.C.

Dr. L. Dujardin, *La vie et les Oeuvres de Jean-FranÃ§ois-Marie-Maurice-Agathe Le Gonidec grammairien et lexicographe breton, 1775-1838* (Brest 1949), (Brest, 1949)

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru* (AberdÃ¢r 1867-70), ii, 17

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732848

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Roberts, R. F., (1953). JONES, DAVID (1793 - 1825), gweinidog yng nghyfundeb yr iarlles Huntingdon, ieithydd medrus, ac un o awduron Principia Hebraica, 1817. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 19 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-JONE-DAV-1793

Copïo i'r clipfwrdd

Cymorth
Cysylltu

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATI